

Ble mae'r gweilch? -  
Gweler tud 4

tud 3

Pobl a Phethe

tud 6

Ble yn y byd?

tud 10

Nabod Gwenallt

tud 12

Chwaraeon

## CABANAU BONTGOCH

Mae un o'r cwmnïau mwyaf sy'n cynllunio ac adeiladu cabanau coed ym Mhrydain wedi ei leoli ym Montgoch. Mae gan berchnogion y cwmni - *Log Cabin UK* - Matt Young ac Ian Lawton brofiad sylweddol mewn coedwigaeth. Graddiodd y ddau mewn Gwyddor Tir a Rheolaeth Cefn Gwlad ym Mhrifysgol Aberystwyth yn 1999 ac wedyn aethant i'r Ffindir i ddysgu mhellach am blannu a chynaeafu coedwigoedd. Mae cabanau coed yn hynod o boblogaidd yn y Ffindir ac wrth eu gweld ymhob gardd gefn bron sylweddolodd Matt ac Ian fod 'na gyfleoedd i ddatblygu yr un math o adeiladwaith yma. Roedd y ddau eisoes wedi ymgartrefu yn yr ardal ac yn ymwybodol fod Cymru'n debyg i'r Ffindir mewn un ffordd allweddol - roedd 'na ddigonedd o ddeunydd crai i adeiladu'r cabanau ar gael yn y coedwigoedd cyfagos.

Sefydlwyd y cwmni yn 2002 a buan y cafwyd y comisiwn cyntaf, adeilad mae llawer ohonom wedi cerdded drwyddo, sef y cabanau derbyn a chroeso yn y Gerddi Botaneg Cenedlaethol yn Nyffryn Tywi. Roedd y cabanau hyn yn hysbyseb ardderchog a arweiniodd at ymholiadau ac archebion o bob rhan o Brydain. Bellach mae'r cwmni wedi cwblhau amrywiaeth o waith - canolfan mewn hosbis yn Blackpool, caban mewn gardd yn Aberystwyth a thŷ byw yng Nghaer. Ar raddfa dipyn mwy mae'r cwmni nawr yn gweithio ar ganolfan gymunedol/addysgol i drigolion Penygam Pontypŷl - adeilad a ariannwyd gan y Gronfa Loteri ac a fydd yn cynnig neuadd bentref ac ystafell dechnoleg gwybodaeth i drigolion y pentref. Y gwaith mwyaf hyd yn hyn yw Canolfan Addysg Agored ar Ian Windermere yn ardal y llynnoedd - adeilad sylweddol o 170 medr sgwâr a gomisynnwyd gan Gyngor Sir Caerhirfryn. Bu'r ymateb yn hynod o galonogol a nawr mae'r cwmni wedi derbyn comisiwn i godi canolfan breswyl gerllaw.

Yn ôl Matt Young mae'r cwmni yn gweithio mewn dwy ffordd. Gall y cwsmer archebu caban neu dŷ parod fel petai ac fe fydd holl rannau hwnnw wedyn yn cael eu paratoi gan chwaer gwmni yn y Ffindir, eu rhoi ar gefn lori enfawr a'u cludo dros For y Gogledd i'r safle ym Mhrydain. Yn yr ail ddull, cwmni Bontgoch sy'n gyfrifol am y cyfan - trafod y cynllun gyda'r cwsmer, cyflwyno cais cynllunio, paratoi'r darnau a rhoi'r cwbl at ei gilydd. P'un bynnag ffordd a ddewisir mae 'na fanteision amlwg - proses adeiladu cyflym gyda'r gwaith yn cael ei gwblhau mewn dau neu dri mis i greu adeilad sy'n hynod o effeithiol o ran gwresogi a chynnal a chadw. Mantais arall yw bod y cabanau'n gweddu i'r



Chwith i'r dde - Ian Lawton a Matt Young

amgylchedd ond mae Matt yn cydnabod bod hyn yn dibynnu'n helaeth ar y safle - mae caban neu dy coed yn gweddu'n berffaith i safle yng nghefn gwlad neu goedwig ond prin y gellid dweud yr un peth am safle yn swbwrbia Caerdydd! Y fantais fwyaf wrth gwrs yw bod y cabanau wedi eu hadeiladu o ddefnyddiau naturiol, adnewyddol. Mae'r cwmni yn gyson chwilio am goed lleol ac ar adeg ymweliad Papur Pawb â'r safle roeddent newydd dderbyn llwyth o *Douglas Fir* o Gwm Nant yr Arian. Beth bynnag yw'r coed - cedrwydden neu larwydden neu'r *Douglas Fir* - rhaid i'r goeden fod tua hanner can mlwydd oed ac yn hir a syth i roi'r darnau addas i'r cabanau a'r tai.

Cwmni cymharol fychan yw Log Cabin UK hyd yn hyn ond yn ystod cyfnodau adeiladu maent yn cyflogi gweithwyr ychwanegol ac mae trosiant y cwmni wedi cynyddu'n sylweddol ers ei sefydlu saith mlynedd yn ôl. Mae Matt ac Ian yn glir fod cyfleodd i ddatblygu eto a'r cam nesa yw adeiladu caban ar y safle uwchben Bontgoch fel y bo modd i gwsmeriaid weld a chael profiad uniongyrchol o'r adeiladwaith. Llonyfarchiadau i'r ddau am eu gweledigaeth i sefydlu busnes llwyddiannus yn ucheldir gogledd Ceredigion. Gallwch ddysgu mwy am y cwmni drwy ymweld â'i gwefan ar [www.logcabinuk.com](http://www.logcabinuk.com).

Ble yn y byd? - tud 6



## Papur Pawb

<b>Golygydd Cyffredinol:</b>	Geraint Evans Garnwen, Tal-y-bont post@garnwen.org Cysyllter â golygyddion y mis. Carys Briddon	(01970) 832473
<b>Tynnu lluniau: Teipyddes:</b>		
<b>Bont-goch: Parsel Henllys: Eglwysfach: Taliessin: Tal-y-bont:</b>	<b>GOHEBYDDION LLEOL</b> Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch Dilys Morgan, Alltgoch Wendy Fuller, Pandi, Ffwrnais Mai Leeding, Glannant, Taliessin Aileen Williams, Maesmeillion Kathleen Richards, Y Bryn Susan Lewis, Maesgwyn, Tre'r Ddôl Janet Evans, Cefngweiriog Eirlys Jones, 91 Maes y Deri	<b>832566</b> <b>832498</b> <b>(01654) 781312</b> <b>832672</b> <b>832438</b> <b>832201</b> <b>832429</b> <b>(01654) 781260</b> <b>832483</b>
<b>Tre'r Ddôl</b>		
<b>Maes y Deri</b>		
<b>Cadeirydd: Is-gaderydd Ysgrifennydd: Trysorydd: Aelodaeth: Hysbysebion: Plygu: Dosbarthwyr:</b>	<b>CYMEITHAS PAPUR PAWB</b> Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont Geraint Pugh, Cysgod-y-Llan, Dôl Pistyll Megan Mai, Gwynionydd, Tal-y-bont Gwyn Jenkins, Maesgwyn, Tal-y-bont Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont Wendy Fuller, Pandi, Ffwrnais Gwenllian Parry-Jones, Lyn Hammonds Enid Gruffudd, Susan Lewis, Gwenllian Parry-Jones, Eurllys Jones (Tanysgrifiadau)	<b>832448</b> <b>832433</b> <b>832384</b> <b>832560</b> <b>832438</b> <b>(01654) 781312</b>

Cyhoeddir gan Gymdeithas Papur Pawb gyda chymorth  
Cyngor Celfyddydau Cymru - Bwrdd Gorllewin a Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Ar ôl bod yn gyfrifol am y gwaith ers sawl blwyddyn mae Eurllys Jones, Eurfan yn dymuno rhoi'r gore i'r dasg o weinyddu tanysgrifidau Papur Pawb. Os hoffech gamu i'r bwlch neu y gwyddoch am rywun arall, cysylltwch â'r Golygydd Cyffredinol (832473).

## Llythyr

### Cynllun Tocyn Tacsí CAVO

Annwyl Olygydd, Fel cydlynnydd Cynllun Tocyn Tacsí CAVO, rwy'n derbyn nifer o alwadau ynghylch beth sy'n digwydd i'r Cynllun eleni. Aethom i Gaerdydd y bwyso ar y Cynulliad i ariannu'r Cynllun eto eleni, a chawsom gadarnhad o hyn ar ddechrau mis Mawrth.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn barod i ariannu'r Cynllun Tocynnau Teithio Rhatach, ond maent yn gofyn am rai newidiadau i'r ffordd rydym yn gweinyddu'r Cynllun ac i'r meini prawf o bobl sy'n gymwys. Rydym wrthi'n brysur yn gwneud y newidiadau yma, ond mi gymer tua chwe wythnos i baratoi a chadarnhau'r newidiadau. Unwaith mae'r gwaith hyn wedi ei wneud, byddwn yn danfon rhagor o wybodaeth a'r pecynnau cais i bawb dderbyniodd tocynnau tacsí llynedd ac i bobl sydd wedi gofyn am becyn cais eleni.

Bydd pawb gafodd docynnau tacsí llynedd yn

derbyn pecyn cais pan fydd yn barod. Os na chawsoch docynnau tacsí llynedd, neu dyma'r tro cyntaf i chi wneud cais am docynnau tacsí, yna cysylltwch â'r swyddfa ar 0845 408 0140, neu e-bostiwch enid@cavo.org.uk, neu danfonwch llythyr i CAVO CT, Bryndulais, 67 Stryd y Bont, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion, SA48 7AB. Bydd pob cais yn cael ei werthuso yn ôl y meini prawf ac anghenion yr ymgeisydd.

Yr eiddoch yn gywir

E Heneghan  
Cydlynnydd y Cynllun

### GARDWEST Y GWANWYN

Coetmor, Tal-y-bont  
Am 2 o'r gloch  
Sadwrn 9 Mai  
Stondinau a  
Gweithgareddau i Blant  
Mynediad: Oedolion £3;  
Plant Ysgol £1  
Yr elw at Apêl De Affrica  
Eglwys Bethel

Croeso Cynnes i Bawb!

## Dyddiadur

### Mai

3  
Bethel, 10.00, Uno yn  
Nasareth  
Nasareth, 10.00, R.H. Lewis  
Rehoboth, 10.00, Gordon  
MacDonald  
Eglwys Dewi Sant – Gweler yr  
hysbysfwrdd  
Eglwys St. Pedr, Bont-goch,  
2.30, Hwyrrol Weddi  
4  
Merched y Wawr, Tal-y-bont a'r  
Cylch, Taith gerdded yng  
ngofal John a Mai Leeding  
Pwyllgor Sioe Tal-y-bont,  
8.00pm  
5  
C.Ff.I. Tal-y-bont  
9  
Diwrnod Agored Cofnodion  
Henebion Cymru Adeilad  
Plascrug Aberystwyth  
10  
Garddwest yng Nghoetmor  
Tal-y-bont am 2.00 – rhan o  
apêl De Affrica, Undeb  
Annibynwyr Cymru  
Bethel, 10.00 a 5.00, Cymanfa  
Ganu  
Nasareth, 10.00 a 5.00,  
Cymanfa Ganu  
Rehoboth, 10.00 a 5.00,  
Cymanfa Ganu  
Eglwys Dewi Sant – Gweler yr  
hysbysfwrdd  
10-16  
Wythnos Cymorth Cristnogol  
13  
Pwyllgor y Neuadd, 8.00pm  
12  
C.Ff.I. Tal-y-bont  
15  
Taith Gerdded Clwb Nos  
Wener yn dechrau yn y Llew  
Du  
17  
Bethel 10.00 – Gweinidog  
Nasareth 10.00 – Glyn Morgan  
Rehoboth 10.30 – Oedfa

Cymorth Cristnogol yn y Garn  
Eglwys Dewi Sant – gweler  
hysbysfwrdd  
Eglwys St Pedr Bontgoch – 2.30  
Cymun Bendigaid  
18  
Merched y Wawr Tal-y-bont –  
Ymweld â Tn Siamas  
Dolgellau  
19  
CFFI Talybont – Ymweld â  
Fantasy Farm  
21  
Sefydliad y Merched Tal-y-bont  
7.15 – Resolutions  
24  
Bethel 2.00 – Gweinidog  
Nasareth 10.00 – Beti Griffiths  
Rehoboth 5.00 – Bugail (C)  
Eglwys Dewi Sant – gweler  
hysbysfwrdd  
26  
CFFI – Practis y Rali  
31  
Bethel 2.00 – Uno yn Nasareth  
Nasareth 2.00 Parch Judith  
Morris  
Rehoboth 10.00 – Steffan  
Jones  
Eglwys Dewi Sant – gweler  
hysbysfwrdd  
Eglwys St Pedr Bontgoch – 2.30  
Cyfarfod Unedig yn Elerch

### Mehefin

1  
8.00 - Pwyllgor y Sioe  
2  
CFFI - Practis Rali  
5  
Clwb Nos Wener – Steve Eaves  
7  
Bethel 5.00 – Gweinidog  
Nasareth 10.00 Bugail (C)  
Rehoboth 5.00 – Bugail  
Eglwys Dewi Sant – gweler  
hysbysfwrdd  
Eglwys St Pedr Bontgoch – 2.30  
Hwyrrol Weddi

Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu eich sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech anfon y manylion llawn at Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont (01970 832438) o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.

Noddir gan  
Lywodraeth  
Cynulliad Cymru



Cydnabyddir cefnogaeth  
Bwrdd yr Iaith Gymraeg  
i'r cyhoeddiad hwn

**BWRDD YR IAITH  
GYMRAEG • WELSH  
LANGUAGE BOARD**

## Cydymdeimlo

Dymunwn gydymdeimlo â Mihangel Morgan, Porth Ceri, Tal-y-bont, ar ei brofediagaeth o golli ei fam a oedd yn byw yn Aberdar.

Cydymdeimlwn â'r teulu ac yn arbennig â Eirlys Jones, 91 Maesyderi, ar golli ei hefaill Gwenda Thomas, Gwelfor, Penyberth, Penrhyncoch. Dymuna'r teulu ddiolch am gydymdeimlad cyfeillion a ffrindiau ac am y blodau a'r cardiau.

Bu chwaer Mam, Mrs Sallie Lloyd, farw yng Nghaerlyr (Leicester) yn 94 oed. Bu'n byw ym mhentref Kegworth ers 1937.

## Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Paul a Louise James, Tŷ Glyneiddwen, Eglwysfach ar enedigaeth eu trydedd merch, Evie ar y 27ain o Ebrill.

Llongyfarchiadau i Tanwen a Malcolm, 1 Birkenhead Street, Tal-y-bont ar eu priodas ar Sadwrn, 18fed Ebrill, yn Aberystwyth.

Mae chwaer fach o'r enw Ayla, wedi cyrraedd yn Helyg Aur a merch i Samantha a Umit, chwaer i Willow. Llongyfarchiadau mawr i'r teulu.

## Genedigaeth âyr

Llongyfarchiadau i Geraint ac Eirian Evans, Garnwen, Tal-y-bont, ar enedigaeth eu hâyr cyntaf (Llew Jacob) yn Llundain ar 3 Mai, mab i Heledd Fflur a Geraint Owen. Pob dymuniad da i'r teulu bach.

## Efeilliaid

Llongyfarchiadau i Geoff Davies a Rachel Jones, 89 Maesyderi, ar enedigaeth efelliaid, bachgen a merch, Alffie Henry a Isabelle Odette, brawd a chwaer i Tia Johnston Jones.

## Gwellhad

Dymunwn wellhad llwyr a buan i Gwyndaf Evans, 94 Maes-y-deri, sydd yn Ysbyty Bronglais ar hyn o bryd yn

# Pobl a Phethe



Llongyfarchiadau i George Lithgow, Hafod Elerch, Bont-goch ar ei lwyddiant fel aelod o dim buddugol Penrhyncoch dan 11 a enillodd gem derfynol Adran 2 Cynghrair Ieuenctid Aberystwyth a'r Cylch ar faes Coedlan-y-Parc, 2 Mai yn erbyn Penllwyn.

dilyn triniaeth lawfeddygol. Pob dymuniad da hefyd i Mrs Janet Evans, Frongoch, Tre'r-ddôl, sydd wedi gorfod dychwelyd i'r ysbyty ar ôl derbyn triniaeth.

## Damwain

Pob dymuniad da i Rhys Richards, Clap-y-Cripiâu, Ffwrnais, a gafodd ddamwain gas wrth chwarae rygbi, ac sydd wedi gorfod cael triniaeth bellach ar ei fraich. Brysya wella, Rhys!

## Croeso adref

Daeth i ben deithio byd! Croeso adref i Luned Gwyn, Maesgwyn, ar ôl ei thaith o gwmpas y byd. Traed yn solet ar y ddaear o hyn allan Luned!

CYNGOR CYMUNED  
CEULANAMAESMAWR

## Cyfarfod Blynyddol

Am 7.30  
Nos Lun 18 Mai 2009

Neuadd Goffa  
Tal-y-bont

**Croeso Cyntes i Bawb**

## Clôd yn Wir

Braf oedd gweld gwesty Fronlas, Llandeilo, ar y raglen S4C Pedair Wal. Perchnogion Fronlas yw Owain ac Efa Huw – Owain, wrth gwrs, yn fab i Gwil ac Eleri Huws, Pengwern.

## Scowtiaid

Bu nifer o sgowtiaid Aberystwyth yn gwersylla dros-nos yn ardal Bont-goch yn ystod y mis.

## Penblwydd Hapus

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Chris Morel, Llawr-y-glyn, Bont-goch ar ddathlu ei benblwydd yn 18 oed ar 27 Ebrill.

**Y Fframdy**  
Mae'r gweithdy yn darparu gwasanaeth fframio dychmygus o'r safon uchaf. Cewch ddewis o amrediad eang o siapiau gosod a fframiau. Bydd y fframdy'n gallu darparu ar gyfer unrhyw anghenion unigol.  
Y Fframdy, Glanceri, Y Borth, Ceredigion SY24 5JA  
Ffôn: 01970 871042  
Symudol: 07773 846659

## Pen-blwydd arbennig

Llongyfarchiadau i Linda Hicks, Tre'r-ddôl, a ddathlodd ei phen-blwydd yn 60 oed ddydd Sadwrn 2 Mai.

## Hoci Rhyngwladol

Yn ystod y mis dewiswyd Rosie Bailey, Troedrhawseiri, Bont-goch i chwarae hoci rhyngwladol dros dim merched Cymru dan 18 oed. Chwaraeodd mewn cyfres o dair gêm brawf yn erbyn Yr Alban a gynhaliwyd ar faes cenedlaethol Cymru, sy'n rhan o gyfleusterau rhagorol Prifysgol Glyndwr, Wrecsam. Er i'r Cymry golli dwy gêm o drwch blewyn, a sicrhau un gêm gyfartal, deallwn fod Rosie, yr unig gynrychiolydd a ddewiswyd o ganolbarth Cymru, wneud argraff dda iawn ar y dewiswyr.

## Dim beicio ym mhentref Bont-goch, dim ond cerdded amdani!

Mae'r ffordd sy'n arwain o Lety-lfan-hen i lynoedd Pendam bellach yn ffurfio rhan o lwybr beicio mynydd Syfydrin. Ond rhaid fydd maddau i'r diweddar Dr. T. I. Ellis am fethu â rhagweld y fath ddatblygiad poblogaidd! Wrth ysgrifennu yn *Crwydro Ceredigion* dros hanner can mlynedd yn ôl, dyma oedd ei rybudd clir i'w ddarllenwyr!: *'Prin y cyngorwn i neb i fentro mewn car na hyd yn oed ar gefn beisicl ar hyd y ffordd hon; nid oes ond eich deudroed amdani'*.

**M & D PLUMBERS**  
Plumbing & Heating  
Ffôn Cymharol,  
Gostyngiad i Bensiynwyr,  
Ysgrifent Llawn;  
Cysylltech â Ni yn gyntaf ar  
01974 282624 / 07773978352

## K Hughes

## Plymio a Gwresogi

Gosod a Thellio Ystafelloedd Ymolchi  
Gwasanaeth Boeler Olew

01970 832129  
07761 917235





## GWYLIO'R GWEILCH

Mae Ymddiriedolaeth Natur Maldwyn wedi adeiladu Canolfan Gwybodaeth a Chuddfan gerllaw Gwarchodfa Natur Cors Dyfi fel rhan o Brosiect Gweilch. Daeth tyrfa gref i wyllo'r naturiaethwr lolo Williams yn agor y ganolfan a'r guddfan ar y 25ain o Ebrill. Mae'r cyfleusterau newydd ar agor i'r cyhoedd rhwng deg y bore a chwech yr hwyr bob dydd a gallwch wyllo'r gweilch y pysgod ar eu nyth, drwy sgrin deledu neu drwy ysbieddychau.

## Cymdeithas y Defaid Mynydd



Simon Lloyd-Williams, Cadeirydd y Gymdeithas, yn cyflwyno Cwpan Rumenco i Alwyn Jones, Pensarn, perchennog Pencampwr yr arbrawf, ac hefyd yn cyflwyno cwpan H.C.C. i Rhodri Lloyd-Williams Moelglomen, perchennog yr hwrdd a'r indecs uchaf.

David Jones, cyn-swyddog efo'r Bwrdd Marchnata Gwlan, yn rhoi cynghorion buddiol iawn ar ansawdd y gwlan.



## ANRHYDEDDU



Yng nghyfarfod blynyddol Cymdeithas Cobiau Cymru yn Llandudno yn ddiweddar cyflwynwyd rhodd i Dr Wynne Davies (brawd Mrs Kathleen Richards a Mrs Ann Jenkins) am ei waith diflino i'r Gymdeithas dros gyfnod o 60 mlynedd. Yn y llun mae Wynne a'i wraig Mrs Ruth Davies yn derbyn y rhodd o law David Williams, Cadeirydd dros dro'r Gymdeithas.

## Halibalã

### Cwmni Theatr Bara Caws



Yn ystod y gaeaf bu 30 o wyn hyrddod yn cyd-bori ar fferm Mr Morgans yn ymyl Wrecsam. Pwrpas y Prawf yw ceisio gwella cynnyrch y ddafad fynydd Gymreig drwy ddewis yr wyn hyrddod mwyaf addas ar gyfer y dyfodol. Mae Swyddogion Hybu Cig Cymru yn pwysu'r hyrddod ar ddechrau ac ar ddiwedd y Prawf ac yn defnyddio dull arbennig i gael indecs gan roi pwyslais

ar gyhyr (50%), tyfiant (30%) a braster (20%). Roedd yr indecs uchaf yn 156 gyda hwrdd Moelgolomen, ail yn 146 – hwrdd Emyr a Huw Davies, Llety Ifan Hen – trydydd yn 145 – un Dylan Alltgoch.

I ddewis y Pencawmpwr, mae pob aelod sydd yn cefnogi'r Prawf yn cael pleidlais, sef tri phwynt i'r gorau, dau i'r ail ac un i'r trydydd. Y canlyniad oedd i



# O'r Cynulliad – Elin Jones AC



Dros yr wythnosau diwethaf, bu llawer o drafod yn lleol ynghylch y cynlluniau diwygiedig ar gyfer canolfan siopa mawr yng nghanol Aberystwyth. Bwriad y datblygwyr yw denu nifer o siopau cenedlaethol i'r dref. Fodd bynnag, byddai'n rhaid dymchwel nifer o siopau a thai ar un o brif strydoedd siopa'r dref er mwyn caniatáu i'r datblygiad yma ddigwydd. Mae trigolion a pherchnogion siopau lleol

wrth reswm yn poeni'n fawr am y cynlluniau gan mai nifer o siopau bach y dref sydd o dan fgythiad. Mae maint y datblygiad arfaethedig hefyd yn dipyn fwy na'r cynlluniau a ddangoswyd yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus y llynedd. O ganlyniad, mae'n hanfodol bod ymgynghoriad cyhoeddus arall yn cael ei gynnal ar y cynlluniau newydd yma er mwyn sicrhau bod pawb yn cael cyfle i fynegi barn ar y datblygiad hwn.

Daeth cynulleidfa deilwng ynghyd i'r Neuadd Goffa yn Nhal-y-Bont ar nos Fercher, 22 Ebrill, i fwynhau cynhyrchiad diweddaraf Cwmni Theatr Bara Caws, 'Halibalā'. Hon oedd drama olaf Wil Sam Jones. Drama anorffenedig ydoedd, ac fe'i cwblhawyd a'i golygu gan ferch y dramodydd, Elin, a'r actores Valmai Jones.

Fel yr ydym wedi dod i ddisgwyl gan un o gwmnïau theatr mwyaf blaenllaw Cymru, roedd y llwyfannu o safon uchel iawn gyda'r actorion yn portreadu'r

cymeriadau lliwgar a'r stori'n dda. Er mai cast cymharol fychan oedd i'r cynhyrchiad, roedd eu talentau unigol yn amlwg wrth iddynt gyflwyno hanes anniddigrwydd Bet yn ei phriodas â'i gwr Lefi Lewis a'i dymuniad i ddechrau perthynas gyda Dafydd Dwbwl-Socet.

Diolch yn fawr iawn i Falyri Jenkins am drefnu noson lwyddiannus eleni eto yng nghwmni Bara Caws ac edrychwn ymlaen yn awchus at eu hymweliad nesaf â'r pentref.

Cefais y fraint yn ddiweddar o fynychu lansiad cwrw 'Cardi Bay' ym mragdy Pen-lon ger Llanarth. Daw'r cwrw newydd yn sgil cydweithio rhwng y bragdy a Phrifysgol Aberystwyth gan ei fod yn defnyddio barlys sydd wedi ei dyfu ar un o ffermydd y Brifysgol. Mae'r Brifysgol eisoes yn defnyddio cynnyrch ei ffermydd ar gyfer tai bwyta a neuaddau preswyl y sefydliad, ac mae'n dda gweld eu bod yn edrych ar gyfleoedd newydd i sicrhau bod cynnyrch lleol yn cael ei ddefnyddio cymaint â phosib i greu bwydydd a diodydd yn lleol.

Fe fydd 2010 yn flwyddyn bwysig iawn i Geredigion – yn ogystal â chroesawu Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd i Llanerchaeron, Ceredigion fydd sir nawdd Sioe Frenhinol Cymru'r flwyddyn nesaf. Roeddwn felly'n falch iawn i fod yn bresennol yn y swper a gynhaliwyd yn ddiweddar i lansio'r apêl ariannol yn ffurfiol. Er ei bod yn gyfnod economaidd anodd, mae'n dda gweld bod trigolion Ceredigion yn barod i estyn eu cefnogaeth i'r ddau ddigwyddiad pwysig yma yng nghalendr y sir y flwyddyn nesaf er mwyn sicrhau y byddant mor llwyddiannus â'r arfer.

## MERCHED Y WAWR TAL-Y-BONT A'R CYLCH

Cafwyd noson wrth fodd yr aelodau ar nos Lun, 20 Ebrill pan groesawyd Helen ac Eleri o gwmni 'Amaeth' atom. Rai blynyddoedd yn ôl gofynnwyd iddynt baratoi bwffe ar gyfer parti priodas, a gan fod hwnnw wedi bod yn llwyddiant penderfynwyd creu'r cwmni. Maent yn defnyddio rysetiau syml a grëwyd ganddynt, ac wrth fynd o amgylch cymdeithasau yn yr ardal, eu gobaith yw y bydd yr aelodau yn mynd ati i goginio'r rysetiau hynny. Ar y noson buont yn brysur yn paratoi amrywiaeth o fwyd sawrus a melys, a hynny mor rhwydd a diffwdan. Ar y diwedd cafodd yr aelodau flasu pob peth, a'r cyfan yn flasu iawn. Talwyd y diolchiadau gan Elizabeth Evans, a Falyri Jenkins ac Ellen ap Gwynn oedd yng ngofal y te.

Lluniau: Cwmni Theatr Bara Caws

**Afiaith**  
Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Proffesiynol  
Prydlon • Personol

Martin Davis  
Llywodraeth, Tŷ Tŷllwyn, MACHYNELLETH  
Ffôn: 01970 832 236 | afiaith@aol.com

*Salon Leri*  
Pob agwedd o drin  
gwallt gan Richard

10am-7pm  
Llan-Guener  
(01970) 832 674

**CODI Tŷ NEU  
ESTYNIAD?**

Iwan Jones, Technegydd Pensaeriol  
Gellimanwydd, Talbont, Ceredigion SY24 5HU  
01970 832760

**James Memorials**

Am  
GOFEBAU ARBENNIG  
BEDDARGRAFFIADAU  
ADNEWYDDU O SAFON  
ARWYDDION AR DAI A  
BUSNESAU

Gofynnwch am bamffled  
rhad ac am ddim

James Memorials  
Vicarage Crossing,  
Llandro, Bow Street  
Ffôn: (01970) 820 111

hwrdd tag 4484 gael 22 pleidlais a derbyn Cwpan Rumenco. Llongyfarchiadau i Alwyn Jones Pensarn, gyda Dafydd Jenkins, Tanyrallt, a David Nutting, Tŷ Hen Henllys, yn drydydd.

Bu y Gymdeithas yn lwcus i gael David Jones, Y Gwlan, yn bresennol i roi ei farn ar ansawdd y cnufiau a oedd wedi eu pwysu a label ar bob un. Hwrdd Dafydd Jenkins, Penbontren Uchaf, â cnu yn

pwysu 4.3kg yn gradd 658 gafodd y ganmoliaeth uchaf ac yn haeddu'r wobwr uchaf.

Cafwyd trafodaeth ardderchog ar safon y gwlan a'r Aelodau yn hapus iawn ar gyflwr yr hyrddod.

I gloi y prynhawn diolchodd y Cadeirydd, Simon Lloyd-Williams, i bawb am eu presenoldeb.

Gareth Evans

## CYMDEITHAS GWARTHEG DUON CYMREIG CANGEN CEREDIGION

### PRYD O GIG EIDION CYMREIG NOSON O ADLONIAENT AC ARWERTHIAENT

FFERM CERRIGCARANAU TAL-Y-BONT  
NOS LUN 25 MAI 2009 AM 7.30  
MYNEDIAD – Oedolion £10, Plant £5

Llywydd y Noson – Mr Gwilym Jenkins Llety'r Bugail

Arwerthwr – Dai Jones Llanilar

# CYFARFOD CYSTADLEUOL REHOBOTH, TALIESIN

Cynhaliwyd y Cyfarfod Cystadleuol yn festri Rehoboth, Taliesin ar nos Fawrth, 28 Ebrill. Y beirniad eleni oedd Mr Phillip Davies, Tal-y-bont, ac fe'i croesawyd i'n plith gan y Parchedig Wyn Morris. Cafwyd noson hwyliog wrth wrando ar y beirniad yn traethu'i feirniadaeth ac ychwanegu ambell stori hefyd. Diolch i'r chwiorydd a fu'n paratoi'r lluniaeth ar ddiwedd y noson.

Dyma'r canlyniadau:

## **Brawddeg o'r gair 'Gwynionydd'**

1. Carys Briddon
2. Carys Briddon
3. Non Griffiths

## **Gorffen Limrig (ar y noson)**

1. Eirlys Jones
2. Avril Bond
3. Myfanwy Rowlands / John Leeding

## **Darllen darn heb ei atalnodi**

1. Carys Briddon
2. Eiriona Metcalfe / Non Griffiths
3. Eirlys Jones / Mai Leeding

## **Cân Ysgafn: 'Colli'r Ffordd'**

1. Carys Briddon

## **Cerdd: 'Blodau'r Gwanwyn'**

1. Carys Briddon

## **Traethawd: Taith gerdded yn y plwyf**

1. Mai Leeding
2. Carys Briddon



## **Llunio Llythyr i gwyno am gyflwr y ffordd**

1. John Leeding
2. Myfanwy Rowlands
3. Carys Briddon
4. Non Griffiths

## **Pennill: 'Tri pheth sydd anodd nabod'**

1. Carys Briddon
2. Myfanwy Rowlands

## **Adroddiad/Darlleniad o waith T. Llew Jones**

1. Eiriona Metcalfe
2. Eirlys Jones
3. Myfanwy Rowlands

## **Cystadleuaeth dyfalu beth sydd yn y sach**

1. Myfanwy Rowlands
2. Eirlys Jones
3. Gwen Williams / John Leeding

## **Llunio Emyn 3 phennill i blant**

1. Myfanwy Rowlands
2. Carys Briddon

## **Cystadleuaeth Gerddorol**

1. Eiriona Metcalfe

Enillydd 'Ble yn y Byd?' Mis Ebrill  
Robin Tomos, Awelon, Pentre Bach

# Ble yn y byd?

## **Sut i chwarae**

Ble yn nalgylch Papur Pawb mae'r llun yma wedi cael ei dynnu?

## **Ateb**

-----

## **Enw**

-----

## **Cyfeiriad**

-----

## **Côd Post**

-----


## **Rhif Ffôn**

-----

Atebion: i Geraint Evans, Garnwen, Tal-y-bont erbyn Mehefin 5ed

## **Gwobr: Tocyn Llyfr £10**

i'r ateb cywir cyntaf allan o'r het







*Tri ffigwr sy'n cyfri ... 360 ... y byd yn grwn:  
Gwasanaeth newydd Golwg ar y we*

Fe fydd yna gyfle i bapurau bro fod yn rhan o wasanaeth newydd Golwg ar y We. Mai 15 – dyna'r dyddiad lansio, a'i enw yw **Golwg 360** ... i ddangos ei fod yn edrych ar y byd o bob ongl. O'r dechrau, fe fydd cyfle i bawb a phopeth hawlio lle ar y gwasanaeth – gan gynnwys papurau bro. Ac mae Golwg eisiau sylwadau gan bawb hefyd, gan mai cyfnod prawf cyhoeddus sy'n dechrau ar 15 Mai. Fe fydd **Golwg 360** yn rhoi gwasanaeth newyddion trwy'r dydd bod dydd trwy gyfrwng y Gymraeg ynghyd â phob math o nodweddion difyr eraill.

**Y cylch yn gyflawn...**

Mae'r enw **golwg360** – yn dangos ei fod yn fwy na gwasanaeth newyddion. Os yw gwasanaeth am fod yn llwyddiant mewn gwirionedd, mae angen i bob math o gyrff, cwmnïau a mudiadau fod yn rhan ohono a chyfrannu ato. Fe fyddai'n wych gweld eich hardal chi yn cael ei chynrychioli'n gryf.

Bydd lle i bob math o gymdeithasau, clybiau a mudiadau gymryd eu safle bach eu hunain ar y gwasanaeth – tudalen neu ddwy i ddweud wrth bawb pwy ydyn nhw ac i roi eu newyddion diweddar. Fe allai ysgol wneud, neu glwb chwaraeon neu, wrth gwrs, bapur bro. A'r cyfan yn hawdd a didrafferth.

Mae yna ffyrdd eraill o gyfrannu hefyd. Ym myd chwaraeon, er enghraifft, os oes rhywun yn sgorio gôl dda neu gais gwerth ei weld i dîm lleol – a bod rhywun wedi tynnu llun neu wneud fideo o hynny – fe allech chi ei anfon i mewn i'w roi ar y gwasanaeth. A does dim rhaid cyfyngu i bêl-droed a rygbi. Beth am rallo, clwb cerdded neu hyd yn oed clwb jiwdo?

A thu hwnt i chwaraeon, bydd cyfle i fudiadau eraill hefyd – o Ferched y Wawr i gorau a chapeli ac eglwysi. A beth am luniau a chanlyniadau o eisteddfod leol?

Beth am fudiad fel y Ffermwyr Ifanc wedyn? Mae'n siwr bod digonedd o luniau o bob math o ddigwyddiadau gan aelodau'r clybiau (ac mae rhai yn ffit i'w dangos i'r cyhoedd hefyd!). Ac, i grwp pop ifanc sydd am gael llwyfan i'w gwaith, dyma le gwych i lwytho caneuon neu fideos fel bod modd i eraill i'w gweld a'u clywed.

**Gwasanaeth unigryw...**

Un fantais fawr i'r gwasanaeth newydd yw ei fod am ddim. Fydd dim rhaid i neb dalu am ddarllen yr holl ddeunydd na gwyllo clipiau o fideos ac ati.

Mae'r gwasanaeth newydd felly yn hollol unigryw – yn cynnig newyddion proffesiynol, adloniant a'r elfennau cymunedol a chymdeithasol a gyfeiriwyd atynt eisoes.

Cofiwch felly am y tri ffigwr yna eto - **golwg360** – y byd i gyd yn grwn.

# GAREJ DAVMOR

M.O.T., Gwasanaeth,  
Batris a Theiars

Gellir llogi car, fan neu fws mini  
i'w gyrru eich hun

[www.davmorgarage.co.uk](http://www.davmorgarage.co.uk)

**Ffôn: 01970 832278**



**Airtricity**  
Nant y Moch

Bydd Arddangosfeydd Cyhoeddus  
ar ddatblygiad  
**Fferm Wynt Nant y Moch**  
yn cael eu cynnal ar

Dydd Mawrth 16 Mehefin 2009 – 5yh – 8yh:  
**Neuadd Ysgol Syr John Rhys, Ponterwyd**

Dydd Mercher 17 Mehefin 2009 – 5yh – 8yh:  
**Ystafell Haearn, Ffwrnais**

Dydd Iau 18 Mehefin 2009 – 2yh – 8yh:  
**Neuadd Penrhyn-coch**

Dydd Gwener 19 Mehefin 2009 – 2yh – 8yh:  
**Neuadd Goffa Tal-y-Bont**

Croeso cynnes i bawb.

Cyfle i wybod mwy am y cynllun.

[www.ffermwyntnantymoch.com](http://www.ffermwyntnantymoch.com)

Teiars  
Aliniad Olwyn  
Ecsôsts  
Batris  
Brêcs  
Hongiad  
Bar tynnu  
Gwasanaeth  
MOT

Glanyrafon

Rhodfa'r Parc

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor

Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan

**ALIGNMYCAR.CO.UK**

Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan

**HUWLEWISTYRES.COM**



**BFGoodrich**



**Ffôn 01970 636774**

## Ysgol Tal-y-bont

Ar y cyntaf o Fai, fe gafodd plant Blwyddyn 5 a 6 brofiadau gwerthfawr iawn yn y Llyfrgell Genedlaethol. Cafodd Blwyddyn 6 y cyfle o weithio gyda'r artist enwog Mary Lloyd Jones mewn gweithdy arbennig i ddatlu cyhoeddi llyfr a phrecyn athrawon amdani gan Wasg Gomer. I ddechrau, buodd y plant yn edrych yn fanwl ar un o luniau Mary o olion y gweithfeydd mwyn yng Ngogledd Ceredigion. Tynnwyd eu sylw at y marciau y mae Mary'n ychwanegu at y gwaith – marciau o hen wyddorau. Edrychwyd wedyn ar farciau Coelbren y Beirdd ac ar y wyddor ogam a'r dasg oedd ysgrifennu neges gudd gyda phastelau gan ddefnyddio'r hen wyddorau. Wedyn bu'r plant yn ychwanegu paent at y neges i orffen y darlun. Ar ddiwedd y prynhawn roedd hi'n amlwg fod dylanwad Mary'n glir ar waith y plant ac roedd pawb (yn cynnwys Mr Jones) wedi mwynhau'r profiad yn fawr iawn.

Yn y cyfamser bu Blwyddyn 5 yn crwydro'r Llyfrgell y tu ôl i'r llenni.

Cafodd y plant gyfle unigryw i ymweld â rhai o weithwyr y Llyfrgell gan weld rhwymwyr wrth eu gwaith a chael sgwrs gyda'r bobl sy'n glanhau hen ddogfennau. Roedd digon o amser i weld enghreifftiau o waith animeiddio yn sinema'r Drwm hefyd.

Hoffwn ddiolch o galon i staff y Llyfrgell am drefnu'r digwyddiad, i Wasg Gomer am y llyfrau ac yn arbennig i Mary Lloyd Jones am y gweithdy.

### Arholiadau

Mae'r ysgol yn ymfalchio yn llwyddiant nifer fawr o blant yr ysgol yn eu harholiadau dawnsio ac offerynnol dros y misoedd diwethaf. Llongyfarchiadau mawr i bob un ohonoch.

### Drama

Yn ystod mis Ebrill aeth plant y Cyfnod Sylfaen i Ganolfan y Celfyddydau i weld perfformiad o'r ddrama "Garden of Dreams". Cafodd pawb dipyn o hwyl yn y theatr – y tro cyntaf i rai brofi gwefr gweld perfformiad byw gan gwmni proffesiynol. Da iawn chi blant am ymateb mor dda i'r actorion.

## STORFA CANOLBARTH CYMRU

Mid Wales Self Storage Centre

- STORIWCHE' • RHOWCH DAN GLO •
- CADWCH Y GORIAD •



STORFA  
GARTREF

- DIOGELWCH  
**BT REDCARE**  
24 AWR



STORFA FUSNES

- CCTV



STORFA I  
FYFYRWYR

- WEDI'I GYNHESU
- CIWBICLAU £10 yr  
wythnos (250  
ciwb)



PACEDU

- ARCHIFAU

**01654 703592**

Heol y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ  
[www.midwalesstorage.co.uk](http://www.midwalesstorage.co.uk)

## camau bach

**8.00am – 6.00pm Llun - Gwener**

**Camau Bach yw'r unig feithrinfa ddydd cyfrwng  
Cymraeg yn Aberystwyth.**

Rydym yn cynnig gofal ac addysg o ansawdd i blant o chwe wythnos oed hyd at oed ysgol. Mae clwb gwyliau bywiog yn cael ei gynnal i blant cynradd yn ystod gwyliau'r ysgol hefyd.

Caiff pob plentyn gyfle i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau fydd yn hybu pob agwedd o'i ddatblygiad.

Mae gan y feithrinfa amrywiaeth eang o deganau, deunyddiau crefft ac arlunio, ynghyd â llawer o offer sy'n annog chwarae dychmygus.

Gallwch fod yn dawel eich meddwl y bydd eich plentyn yn cael y gofal gorau gan y tîm o staff profiadol a chymwys, a hynny mewn awyrgylch deniadol, cyfeillgar a Chymreig.



[www.mym.co.uk](http://www.mym.co.uk)



**01970 639655**





### Gwaith maes Daeryddiaeth

Ar ddiwrnod olaf mis Ebrill aeth Blwyddyn 6 ar wibdaith i geisio darganfod tarddiad yr Afon Leri. Ein tywysydd oedd Lisa Tomos o Gyngor Cefn Gwlad Cymru a mam Robin a Carwyn. Roedd yn brynhawn diflas o ran y tywydd ond doedd hynny ddim wedi tynnu dim oddi ar y profiadau arbennig a gawsom ar y gors ger Llyn Craig y Pistyll yn Nant-y-moch. Dyma beth ddysgom ni fel dosbarth -

- Dysgais fod mwswg o'r enw *Sphagnum* yn sugno dŵr ac yn troi mewn i fawn (Robin)
- Dysgais fod *Sphagnum* yn wyrdd golau (Billy).
- Dysgais sut i ddefnyddio cwmpawd (Paul).
- Dysgais fod pen uchaf mynyddoedd yn gallu bod yn wastad (Ffion).
- Dysgais fod corsydd yng Nghymru yn helpu i atal cynhesu byd eang (James).
- Dysgais ystyr y gair "gwahandir" (Medi).
- Dysgais fod y tymheredd yn gallu bod yn oerach ar grib y mynydd nag yn y cwm (Rachael).
- Dysgais enw lliw newydd – euraid (Esther).
- Dysgais fod sphagnum yn gallu dal deg gwaith ei bwysau o ddŵr (Shauna).
- Dysgais sut i adnabod cŵn yr ehedydd. (Mr Jones).

### Rhedeg Trawsgwlad

Llongyfarchiadau mawr i Ashleigh Evans (Blwyddyn 3) ac Ella Evans (Blwyddyn 5) am eu hymdrechion wrth gynrychioli'r ardal yng nghystadleuthau trawsgwlad yr Urdd yng Ngwersyll Llangrannog dros y penwythnos. Llongyfarchiadau arbennig i Joshua Abbott (Blwyddyn 5) am ddod yn y deg uchaf.

I ddathlu cyhoeddi Steddfod yr Urdd Ceredigion 2010 trefnwyd taith gerdded o gwmpas holl ysgolion y Sir. Trefnydd ein cylch oedd Rhys Huws a danfonwyd y cerddwyr ar eu taith gan blant ysgol Tal y Bont. Cerddodd y deg drwy Allt y Crib i Lôn Glanfred a ysgol Rhydypennau ac yna ymlaen oddi yno i Ysgol Penrhyncoch.





# NABOD

Ar brynhawn Gwener wythnos Eisteddfod Genedlaethol Môn yn 1999 enillwyd y gadair gan fachgen ifanc sy nawr yn byw yn Nhal y Bont ac eleni yn Eisteddfod Meirion degawd yn hwyrach fe fydd yr un person yn un o dri a fydd yn beirniadu cystadleuaeth y gadair. Dal i bendroni a meddwl pwy yw e? Wel, ei enw wrth gwrs yw Gwenallt Llwyd Ifan, Llys Awel ac fe yw gwrthrych Nabod y tro hyn.

Wrth i ni gychwyn ein sgwrs fe es i nôl â Gwenallt i'r prawn Gwener byth gofiadwy hwnnw a gofyn pryd gath e wybod mai fe oedd yn fuddugol? A'r ateb er mawr syndod yw iddo bron â methu cael gwybod! Ar yr adeg hynny roedd Elis y mab yn bedair blwydd oed ac yn fachgen bach hynod o daclus. Rhyw fore ma' lythyr yn cyrraedd y tŷ yn Ninbych lle'r oedd y teulu'n byw ar y pryd ac ynddo dau docyn i seddau cadwedig yn y pafiliwn a'r neges fod y tocynnau yn ymwneud â gwybodaeth a ddanfonwyd mewn llythyr blaenorol. Dim cliw da neb am y llythyr cyntaf ac wedi mawr chwilio, a cael fod Elis taclus wedi taflu'r llythyr holl bwysig i'r bin! Beth bynnag, fe'i cafwyd yn ddiogel a Gwenallt a'i wraig Delyth yn mynd i'r pafiliwn a chael eu tywys i'w seddau. A dyma ddod at yr ail helynt! Mewn rhyw bum munud dyma ail stiward yn dod at Gwenallt a dweud bod y ddau yn y seddau anghywir! Gorfod symud a chael fod 'na ddau arall yn barod yn y seddau penodol – rheiny'n cael eu symud a Gwenallt a Delyth yn cymryd eu lle. Wrth gofio am y prawn mae Gwenallt yn cydnabod ei fod yn hynod o nerfus yn barod a bod camgymeriad y seddau ddim yn help o gwbl.


Galwyd ei ffugenw – *Carreg Seithllyn* – gan yr archdderwydd ac ar alwad y corn gwlad dyma'r foment fawr a Gwenallt yn sefyll. Erbyn iddo gamu i'r llwyfan roedd y nerfau wedi diflannu ac fe fwynhaodd y seremoni'n fawr a chael y cyfan yn gymharol hawdd tan adeg canu Hen Wlad Fy Nhadau ar y terfyn. Roedd teimladau cryfion a'r emosiwn yn rhedeg yn rhydd ond mewn ychydig roedd e allan yn yr awyr iach yn derbyn llongyfarchion ei gyd-feirdd a'i deulu.

Mae'r gadair nawr mewn lle parchus yn Llys Awel ac mae'n gadair hardd a diddorol. Fe'i gwnaed o ddarn o un goeden dderw ond mae ynddi hefyd ddarnau o goed tywyllach o Zaire yn Affrica – dau gwllwm sy' bron yn ddu ar y cefn a'r nod cyfrin ar y pen blaen.

Er ei fod yn brifardd ac yn ymddiddori'n fawr mewn llenyddiaeth Gymraeg a Saesneg, gwyddonydd yw Gwenallt o ran addysg a hyfforddiant. Gadawodd yr ysgol uwchradd yn Nhregaron a mynd i weithio i fferm y Weinyddiaeth yn Nhrawscoed. Oddi yno aeth i Brifysgol Caerdydd a graddio mewn Biocemeg a bu'n dysgu gwyddoniaeth mewn sawl ysgol uwchradd tan ei benodi'n bennaeth ar ei hen ysgol yn Nhregaron. Pryd felly aeth 'e ati i ddysgu'r gynghanedd? Fe gychwynnodd Gwenallt ymddiddori yn y grefft yn 1993, dechrau dysgu ei hunan drwy ddilyn y gyfrol *Anghenion y Gynghanedd* a mynd wedyn i ddsbarth John Glyn Jones yn Ninbych. Mae'n cydnabod, fel sawl un arall fod teithi'r meddwl gwyddonol, mathemategol yn medru bod yn gymorth wrth ddysgu'r gerdd dafod. Yn 1994 bu farw ei dad-cu ac fe gyfansoddodd Gwenallt gerdd goffa iddo ac ennill ei gadair gyntaf am y gerdd yn Eisteddfod Llen Y Llannau yn Llansannan.

Mae wedi ennill amryw o gadeiriau ers hynny ac yn bendant fod cystadlu yn bwysig iddo - am ddau reswm. Mae'n berson cystadleuol ond yn bwysicach mae cystadlu yn arwain at feirniadaeth sydd yn ei dro'n arwain at wella a mireinio'r grefft. A dyma ddod at rywbeth sy'n greiddiol yn ei farn ef - medwrch chi fod yn gynganeddwr pen i gamp ond dyw hynny ddim yn eich gwneud yn fardd. Medr y gynghanedd fod yn feistres neu yn llaw forwyn ac mae bardd yn llawn sylweddoli mai'r ail ac nid y cyntaf sy'n ei wneud yn fardd. Bellach mae Gwenallt wedi cyflwyno crefftau'r gerdd dafod i griw yma yn Nhal y Bont ac fe

Gwenallt  
Llwyd  
Ifan



glywir tim y pentref yn aml yn ymgiprys ar raglen Talwrn y Beirdd.

Ei ddiddordebau amser hamdden yw pysgota a saethu. Ac yntau ond yn naw mlwydd oed dechreuodd bysgota ar y fferm adref a gwella ei sgiliau drwy fynychu dosbarthiadau castio a chlymu plu o dan arweiniad Moc Morgan. Dyma le down ni unwaith eto at yr elfen gystadleuol. Bu'n aelod chwe gwaith o dîm pysgota Cymru ac yn bencampwr dwy waith yng nghystadleuaeth pysgota plu Prydain. Teithiodd gyda thîm Cymru i'r Ffindir i gymryd rhan ym mhencampwriaeth y byd; yn hyn mae Gwenallt yn cofio'n arbennig yw chwarae criced yno am ddau o'r gloch y bore! A hithau'n ganol haf yn y Ffindir roedd nos a dydd yn union yr un fath ac felly beth oedd yn fwy naturiol na gêm o griced? Erbyn hyn prif atyniad pysgota yw cyfle i chwilio am a chael tawelwch meddwl a hyn yn ei dro yn estyn cyfle i'r awen i alw heibio. Gyda llaw, ei ffugenw yn steddod Môn – *Carreg Seithllyn* – carreg enfawr gerllaw un o lynnoedd Teifi yw hon – un o hoff lecynnau pysgota Gwenallt. Mae saethu a hela yn rhan o'i gefndir, a'i fagwraeth – traddodiad teuluol yn ymestyn nôl dros sawl cenhedlaeth. Er iddo gydnabod ei fod yn *shot* eitha da ei brif bleser yw gweld yr helgi yn gweithio a bob tro y bydd yn mynd i saethu bydd y ffyddlon Cadi wrth ei ochr.

A nawr yn Eisteddfod Meirion mae'n croesi'r ffens fel petai a rhoi beirniadaeth yn hytrach na'i derbyn. Fel y bydde chi'n disgwyl ni chafwyd gair ymhellach ond rhaid i Gwenallt a'i gyd-feirniaid orffen eu gwaith a chyflwyno'i dyfarniad erbyn canol Mai. Am y gweddill rhaid aros tan brynhawn Mawrth a'r seremoni cadeirio yn y Bala – a chymryd wrth gwrs y bydd na gadeirio!

GIE

Os am darsi neu fws mini

**CAMBRIAN  
CABS**

Teithiau Pell ac Agos  
01970 626292

CEFNOGWCH GYMRO LLEOL

**H. LLOYD WILLIAMS**  
CYMNAL A CHADW GERDDI  
TORRI PORFA A SIETYN, GOSOD DECKING  
A SLABIAU

**DOES DIM YN ORMOD O WAITH!**

32 Bryncastell      Ffôn: 01970 820899  
Bow Street      Symudol: 07966 105519



## CYNGOR CYMUNED CEULANAMAESMAWR

Estynnwyd croeso gan y Cadeirydd i'r aelodau oedd yn bresennol yn y cyfarfod a gynhaliwyd nos Lun 27 Ebrill. Nid oedd unrhyw fuddiant i'w ddatgelu gan yr aelodau hynny oedd yn bresennol.

Adroddodd y Cynghorydd Eric Roberts bod y gwaith o dacluso'r tir ar ochr ogledd-orllewinol Maes-y-deri bellach wedi ei gwblhau gan weithwyr y Cyngor Sir a chanmolwyd eu gwaith yn fawr. Adroddwyd hefyd fod siawns dda y caiff gwelliannau a awgrymwyd gan y Cyngor i'r ddarpariaeth parcio ceir yn Maes-y-deri eu gwneud yn y dyfodol agos.

Cyflwynodd y Cynghorydd Ellen ap Gwynn adroddiad llafar i'r aelodau ar y cynlluniau i ddatblygu estyniad sylweddol i Ysbyty Bronglais a'r trefniadau a fwriedir ar gyfer maes parcio deulawr yn y lleoliad presennol i gerbydau cleifion ac ymwelwyr, ynghyd â chyfleusterau parcio i staff yr ysbyty ar Ffordd Clarach. Os derbynir y cynlluniau arfaethedig yr haf hwn, y gobaith yw cychwyn y datblygiad newydd yn 2010 a chwblhau'r project cyfan erbyn 2014.

Cyflwynwyd sylwadau'r aelodau hynny fu'n astudio'r ddogfen ymgynghorol ar y Cynllun Datblygu Lleol 'Y Strategaeth a Ffeirir' i weddill y cynghorwyr, a chyda mân welliannau pasiwyd i anfon y sylwadau hynny ymlaen i Gyngor Ceredigion. Ar gais *Airtricity* i flaenoriaethu themâu posib ar gyfer buddiant cymunedol, pe gwiredir y cynllun i godi Fferm Wynt Nant y Moch, cytunwyd ar awgrymiadau i'w hanfon ymlaen.

Adroddodd y Clerc iddo dderbyn galwad ffôn gan un o swyddogion Uned Llwybrau Troed Cyngor Ceredigion, yn dilyn cwyn a drafodwyd yng nghyfarfod mis Mawrth, i ddweud bod staff y Cyngor eisoes wedi cael golwg ar y llwybr o Faes-y-llan i Glanceulan yn gymharol ddiweddar yn dilyn cwyn arall am gyflwr wyneb y ffordd. Gan mai llwybr troed yn hytrach na ffordd yw ei statws, roedd y swyddog o'r farn nad oedd problem neilltuol i gerddwyr ar y rhan yma o'r llwybr a phenderfynwyd nad oedd cyfiawnhad dros wneud gwaith atgyweirio yno. Wedi tynnu sylw'r Swyddog at y ffaith bod y perygl mwyaf i gerddwyr ar ochr Melin Penpompren o'r bont, addawodd ddychwelyd i gael golwg bellach.

Adroddodd y Clerc bod yr heddlu wedi cysylltu i ddweud bod baner y Ddraig Goch a ddygwyd o'r Neuadd ddiweddedd mis Chwefror wedi ei dychwelyd i swyddfa'r heddlu yn Aberystwyth a'r person oedd yn gyfrifol wedi derbyn rhybudd ffurfiol. Bellach dychwelwyd y faner i ddwylo'r Cyngor. Carai'r Cyngor ddiolch am gydweithrediad aelodau o'r gymuned leol.

Derbyniodd y Cyngor wahoddiad i ymateb i bapur ymgynghorol gan John Morgan, Is-gadeirydd Fforwm Mynediad Lleol Ceredigion, ar ddulliau o gryfhau'r rhan y gallai Cynghorau Cymuned ei chwarae i sicrhau gwell mynediad i'r cyhoedd i lwybrau troed a llwybrau ceffyl. Wedi trafod cynnwys y papur, cytunwyd i gefnogi'r argymhellid i sefydlu fforwm blynyddol fyddai'n cynnwys cynrychiolaeth o Gynghorau Cymuned, a hynny ar ffurf pedwar grŵp ardal yn hytrach nag un sirol. Ond gwrthodwyd yr awgrym y dylai'r Cyngor Bro sefydlu Is-bwyllgor Hawliau Tramwy a Mynediad Cyhoeddus gan fod materion o'r fath eisoes yn cael eu trafod gan y Cyngor llawn.

Derbyniwyd ateb gan Asiantaeth Cefnffyrdd Canolbarth Cymru yn cadarnhau'r perygl o barcio cerbydau ar y llain ar bwys yr Ysgol. Dywedwyd y byddai'r Asiantaeth yn cyflwyno rhybudd i'r perchnogion perthnasol.

Derbyniwyd y Ceisiadau Cynllunio canlynol gan yr Awdurdod Cynllunio – rhif A080682 i godi annedd ar bwys Cae'r Gog a rhif A090074 i ailosod strwythur to Golwgymôr, Pentrebach.

Adroddodd y Cynghorydd Ellen ap Gwynn ei bod wedi derbyn gwybodaeth y bydd rhywfaint o gyllid ar gael eleni i wneud peth o'r gwaith atgyweirio ar ran o'r ffordd rhwng Cwmere a Bont-goch. Nododd y Cynghorydd Nest Jenkins fod cyflwr ffordd Cwm Ceulan wedi dirywio mewn mannau gyferbyn â Blaenceulan wrth iddi gael ei defnyddio yn ystod y gaef diwethaf tra oedd y ffordd dros yr argae ar gau. Cytunwyd i anfon llythyr at y Cyngor Sir yn tynnu eu sylw at y difrod a wnaed. Gofynnodd y Cynghorydd Enoc Jenkins i'r Cyngor anfon llythyr at y Cyngor Sir yn cwyno bod eu lorïau glanhau ffyrdd yn gwagio'r gwastraff a gesglir ganddynt ar ochr ffordd wledig ger Gwarcwm.

Cynhelir Cyfarfod Blynyddol y Cyngor am 7.30 nos Lun 18 Mai yng ngwaelod y Neuadd Goffa ac estynnir gwahoddiad i aelodau'r cyhoedd i'w fynychu.

GH

*Rhian*

Tringwallt gartref  
25 mlynedd o brohad  
Gwasanaeth cyle llgar dibynadwy  
ffôn 832 612  
07835 525 553

ANGEN  
Anifeiliaid Tew  
(i'w lladd mewn  
lladd-dy lleol)

Cysylltwch â Tegwyn Lewis  
Capel Bangor 880627

**S. F. BYRNE**  
Adeiladwr a Saer Maen



Ffôn: 01970 832068  
M: 077626 20309  
Gwneir pob math o waith

Siop y Pethe  
Aberystwyth

Llyfrau a Recordiau  
(01970) 617120

Argraffu 5-lliw  
a gwasanaeth di-ail:  
holwch Paul am bris  
ar [paul@yloffa.com](mailto:paul@yloffa.com)



*Ylloffa*

TALYBONT CEREDIGION SY24 5HE  
01970 832 304  
[yloffa@yloffa.com](mailto:yloffa@yloffa.com)  
[www.yloffa.com](http://www.yloffa.com)





### Brian Richards

Mae Brian Richards rheolwr Timau Pêl-droed Ieuentid Talybont a'r Cylch yn ymdeol o'i swydd ar ôl yr holl flynyddoedd o wasanaeth i'r timau.

Rydym yn casglu arian tuag at brynu anrheg iddo. Os hoffech gyfrannu cysylltwch â Ceri Jones, Pistyll-y-Llan, Talybont, Ffôn 01970 832543. Erbyn 5 Mehefin, 2009.

Byddwn yn cyflwyno anrheg i Brian ar Ddiwrnod Hwyl, Clwb Peldroed Ieuentid ar 27 Mehefin, 2009.

## CAMPAU'R TERIYS A'R TEIGROD

Roedd ddydd Sadwrn cyntaf Mai yn ddiwrnod mawr i rai o chwaraewyr ifanc Clwb Pêl-droed Ieuentid Tal-y-bont wrth i dimau'r Teriys a'r Teigrod gystadlu am gwpanau ar faes Coedlan y Parc, Aberystwyth. Yn naturiol roedd y rhieni yno i gefnogi a dyma hanes y ddau ffeinal gan ddau o'r rhieni a oedd yno.

### Teriys Talybont yn cipio'r Gwpan!

Dydd Sadwrn, 2 Mai, a'r haul yn tywynnu'n braf chwaraeodd Teriys Talybont yn y rownd derfynol yn erbyn Ystwyth Dragons yng Nghoedlan y Parc, cae tim pêl-droed tref Aberystwyth. Wedi hanner cyntaf cyffrous ac anodd yn galw am amddiffyn cadarn gan y Teriys, ac ambell arbediad gwych gan y gôl-geidwad Leon Davies, 'roedd y sgôr yn 0-0. Yn ystod yr ail hanner bu chwarae crefftus yn cynnig cyfleoedd i'r ddau dîm, a dangosodd hogie Talybont fwy o hyder yn eu hymosodiad yn erbyn gôl y Dragons, ond y sgôr terfynnol oedd 0-0. Ymlaen i amser ychwanegol ac ar ôl pum munud o frwydro

cadarn gan y ddau dîm, parhau i fod yn ddisgôr oedd hi.

Roedd yn rhaid penderfynu'r achlysur drwy gymryd ciciau o'r smotyn ac roedd tensiwn mawr i'w deimlo ymysg y timau a'u cefnogwyr. Ond y Teriys oedd yn fuddugol gan sgorio tair o'r smotyn yn erbyn un gan eu gwrthwynebwyr ac felly y teriys enillodd y Gwpan.

Chwaraeodd y ddau dîm yn ddewr a chyffrous.

Llongyfarchiadau MAWR i'r Teriys gyda'u hymdrech ardderchog. Mae'n rhaid cydnabod a diolch i Brian Richards ac aelodau eraill o'r tîm hyfforddi, diolch i'r plant ac i'r rhieni am eu hymroddiad dros y tymor diwethaf.

Edrychwn ymlaen at y tymor nesaf, da iawn chi ! Y tîm oedd Taliesin Owen-Lamot, Gerallt Jenkins, Liam Kelly, Cian Toland, Tyrone Joule, Ashleigh Evans, Awen Saunders-Goldman, Joel Dibble, Harri Mason, Rufus Hayes, Mikey Winterbruce, Leon Davies.

Lona Mason

### ...Ond y Teigrod yn anlwcus iawn

Dyma oedd gêm bwysica'r tymor i'r bechgyn, chwarae yn erbyn Demonïaid Penparcau yn y ffeinal. Daeth ergyd gyntaf y gêm i sobri pawb pan welwyd Ryan Vaughan yn cael ei gludo i'r ysbyty mewn ambiwlans. Rhaid canmol y chwaraewyr am ail-gydio yn y gêm, gyda nifer ohonynt yn chwarae allan o'u safleoedd arferol. Chwaraeodd yr hanner cyntaf gyda dim byd yn gwahanu'r ddau dîm, ond rhaid i hyd yn oed y Demonïaid (yn dawel bach) gyfaddef mai'r Teigrod oedd yn rheoli'r ail hanner o bell ffordd ac yn chwarae'n well nag a welwyd erioed o'r blaen. Dim ond mater o amser oedd hi cyn i Harri James gicio pêl uchel a Llion Jenkins yn sgorio gôl haeddiannol. Erbyn hyn roedd cefnogwyr Talybont yn hysterig wyllt, ond yn anffodus sgoriodd Y Demonïaid ychydig funudau

Mae Papur Pawb yn awyddus i gynnwys newyddion am hynt a helynt unigolion neu dimau o'r ardal sy'n cystadlu yn y byd chwaraeon. Anfonwch yr hanesion at Gwyn Jenkins drwy e-bost ([maesgwyn@fsmail.net](mailto:maesgwyn@fsmail.net)) neu ffoniwch ef ar 832560.

cyn diwedd y gêm. Yn ôl y rheolau rhaid oedd chwarae pum munud arall ond ni sgoriwyd goliau pellach. Cafwyd munudau hollol tyngedfennol wrth i'r ddau dîm gymryd ciciau o'r smotyn ac yn anffodus Y Demonïaid oedd yn fuddugol a chipio'r Gwpan. Nhw hefyd oedd pencampwyr y Gynghrair gyda'r Teigrod yn ail. Diolch iddynt am ddiwedd glo mor gyffrous i'r tymor.

Rhaid diolch yn fawr iawn, iawn i Simon a Sian, hyfforddwyr y tîm, heb anghofio am gyfraniadau Mark, Alun a Ceri. Bu'n dymor ffantastig ac mi fydd yn aros yn hir yng nghôf pob un ohonom.

Mair Nutting



Llongyfarchiadau i Mair Evans, Tan-Ilan, a oedd yn aelod o dîm Ilwyddiannus Ysgol Penweddig a fu'n cystadlu yn y rowndiau terfynol i dimau rygbi tag merched dan 14 mlwydd oed yn ddiweddar.

Llwyddodd y tîm i gyrraedd y rownd derfynol cyn colli o drwch blewyn 6-5 yn erbyn Rhondda Cynon Taf.

### Tîm buddugol y Teriys yn dathlu

